# Datganiad Blynyddol am Uniondeb Ymchwil

2022-23

~~(P2324-177)~~

| | |
|---|---|
| **Enw'r Sefydliad: Prifysgol Abertawe** | |
| **Cyfnod yr adolygiad:** Awst 2022 - Awst 2023 | |
| **Cymeradwywyd gan y Corff Llywodraethu: Cyngor y Brifysgol.**<br>**Cymeradwyaeth pwyllgorau llywodraethu eraill:**<br>1. Pwyllgor Uniondeb, Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol: 27 Hydref 2023.<br>2. Yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth: Hydref 2023.<br>3. Pwyllgor Ymchwil, Effaith ac Arloesi'r Brifysgol: Tachwedd 2023.<br>4. Senedd y Brifysgol Tachwedd 2023 | **Dyddiad y bydd ar gael i'r cyhoedd:** Tachwedd 2023. |
| **Cyfeiriad gwe'r datganiad:** Uniondeb Ymchwil - Prifysgol Abertawe | |
| **Cyfeiriad gwe tudalen uniondeb ymchwil y sefydliad: :** Uniondeb, Moeseg a Llywodraethu Ymchwil – Prifysgol Abertawe | |
| **Manylion cyswllt ar gyfer:**<br>• **Pryderon ynghylch uniondeb ymchwil / camymddygiad mewn ymchwil:** Yr Athro Helen Griffiths (Dirprwy Is-ganghellor Ymchwil ac Arloesi) researchmisconduct@abertawe.ac.uk neu pvcresearch@abertawe.ac.uk<br>**Cwestiynau / Gwybodaeth ynghylch uniondeb ymchwil: Mrs Anjana Choudhuri.** researchintegrity@abertawe.ac.uk | |
| **Dyddiad anfon y datganiad i CCAUC:** I'w gadarnhau. | |

## RHAGARWEINIAD

***Hwn yw 8fed Datganiad Uniondeb Ymchwil Prifysgol Abertawe, ac mae'n berthnasol i'r cyfnod academaidd 2022/23.*** Mae'r adroddiad hwn yn darparu crynodeb o'r gweithgareddau mae'r Brifysgol yn ymgymryd â nhw i ddangos ei hymrwymiad i bum egwyddor y ***Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil.*** Mae'r datganiad yn rhoi sicrwydd bod y prosesau sydd ar waith i ymdrin â honiadau o gamymddygiad mewn ymchwil yn dryloyw, yn gadarn ac yn deg a'u bod yn parhau'n briodol i anghenion y sefydliad. Mae data am honiadau o gamymddygiad mewn ymchwil, ac unrhyw ymchwiliadau, wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn ynghyd â datganiad am y gwersi a ddysgwyd i atal hyn rhag digwydd eto. Mae'r datganiad hefyd yn cynnwys tystiolaeth am sut mae'r sefydliad yn creu diwylliant ymchwil sy'n galluogi'r holl staff, ymchwilwyr a myfyrwyr i deimlo'n gyfforddus i roi gwybod am gamymddygiad. Mae'r Brifysgol yn disgwyl i'w staff (gan gynnwys staff er anrhydedd), ei myfyrwyr a'i hymwelwyr a'i chydweithredwyr ymgymryd ag ymchwil yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau uniondeb ymchwil a gyhoeddir ar dudalennau gwe'r Brifysgol. (Uniondeb, Moeseg a Llywodraethu Ymchwil – Prifysgol Abertawe).
Mae'r Brifysgol yn parhau i danysgrifio i UKRIO ac mae'n darparu arweiniad a hyfforddiant ynghylch prosesau moeseg a llywodraethu ymchwil i staff a myfyrwyr y Brifysgol drwy dudalennau mewnrwyd y Brifysgol.

## 1. CRYNODEB O WEITHGAREDDAU I HYRWYDDO UNIONDEB YMCHWIL

- **Diwylliant Ymchwil**

Mae gweithgarwch monitro ymchwil, mentrau a datblygiad ymchwil ym Mhrifysgol Abertawe'n cael ei lywio gan y Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol ar gyfer Diwylliant Ymchwil a'r Rheolwr Diwylliant Ymchwil sydd newydd gael ei benodi, gan gydweithredu â'r Dirprwy Is-ganghellor ar gyfer Ymchwil ac Arloesi a rhanddeiliaid perthnasol eraill yn y gwasanaethau Ymchwil ac Arloesi yn Abertawe. Ym mis Mehefin 2023, cymerodd Abertawe ran yn CEDARS (arolwg cenedlaethol o ddiwylliant, cyflogaeth a datblygiad ymchwilwyr academaidd) er mwyn meithrin darlun a dealltwriaeth o safbwynt a barnau cyfredol ein cymuned ymchwil ac unrhyw heriau maent yn eu hwynebu. Byddwn yn defnyddio hyn i lywio ein blaenoriaethau o ran sut byddwn yn cefnogi ymchwilwyr ac yn hyrwyddo diwylliant ymchwil cadarnhaol yn y Brifysgol dros y blynyddoedd nesaf.

Un o'r mentrau a ddatblygwyd yn y flwyddyn ddiwethaf yw Ymrwymiad y Technegwyr, sef menter sector cyfan a arweinir gan y Cyngor Gwyddoniaeth â'r nod o helpu i fynd i'r afael â heriau allweddol mae staff technegol sy'n gweithio ym maes ymchwil yn eu hwynebu. Cyflwynodd gweithgor Ymrwymiad y Technegwyr ei gynllun gweithredu i'r Cyngor Gwyddoniaeth ym mis Ionawr gan fanylu ar gynlluniau megis Symposiwm Blynyddol y Technegwyr sydd â'r nod o gydnabod, gwerthfawrogi a chefnogi'r gymuned dechnegol yn Abertawe.

- **Ymchwil Agored**

Gwnaed cynnydd sylweddol ym Mhrifysgol Abertawe dros y flwyddyn ddiwethaf wrth wreiddio polisi ac ymarfer Ymchwil Agored. Gellir diffinio hyn fel set o offer ac arferion â'r nod o sicrhau bod allbynnau ymchwil ar gael yn helaeth, eu bod yn ddealladwy, bod modd eu atgynhyrchu a'u beirniadu. Drwy rannu a thryloywder, cyflymir y broses hon sy'n nodweddiadol o hybu gwybodaeth yn y gymuned ymchwil. Mae Prifysgol Abertawe wedi cyflwyno llythyr i ymuno ag UKRN (Rhwydwaith Atgynyrchioldeb y DU) a'r rhaglen Ymchwil Agored i sicrhau bod diwylliant ac arferion Ymchwil Agored yn cael eu hatgyfnerthu a'u datblygu ymhellach. Er enghraifft, mae Prifysgol Abertawe wedi diweddaru ei pholisi mynediad agored i gynnwys Trwydded Creative Commons ar gyfer pob cyhoeddiad, gan ddilyn arfer gorau yn y sector.

Ym mis Ionawr 2023, llwyddodd Prifysgol Abertawe i gadw Dyfarniad Rhagoriaeth AD mewn Ymchwil y Comisiwn Ewropeaidd sy'n cydnabod sefydliadau sydd wedi bodloni egwyddorion amodau gweithio da i ymchwilwyr a dangos ymrwymiad i weithredu Concordat y DU i Gefnogi Datblygiad Gyrfa Ymchwilwyr. Mae'r cynllun gweithredu a gyflwynwyd i Vitae yn cynnwys nifer o gynigion a mentrau sy'n canolbwyntio ar ddatblygu gyrfaoedd staff ymchwil; er enghraifft, darparu hyfforddiant Gwyliwr Gweithredol sydd â'r nod o gynyddu ymwybyddiaeth o bolisi a gweithdrefnau'r Brifysgol ynghylch aflonyddu a bwlio, gan hefyd ddarparu offer i alluogi staff i adnabod ymddygiad dieisiau neu amharchus yn eu hamgylchedd ymchwil a mynd i'r afael ag ef.

- **Ymchwil Ddibynadwy**

Yn 2022, cyhoeddodd llywodraeth y DU Strategaeth Seiber newydd. Ar yr un pryd, cyhoeddwyd arweiniad UUK ynghylch goruchwylio deunydd ymchwil sy'n sensitif o ran diogelwch mewn prifysgolion. Felly, yn 2022-23 cynhaliodd y Brifysgol ymarfer cwmpasu i bennu'r gofynion ar gyfer amgylchedd 'Hanfodion Seiber' achrededig i'r brifysgol gyfan. Bydd amgylchedd 'ymchwil ddibynadwy' o'r fath o gymorth i ymchwilwyr sy'n cynhyrchu neu'n ymdrin â deunyddiau ymchwil sy'n sensitif o ran diogelwch, ac yn cyflwyno ceisiadau am brosiectau cynghorau ymchwil sy'n gofyn yn aml bod amgylchedd 'hanfodion seiber' ar waith ar y cam cyflwyno cais. Nid oes gan y Brifysgol achrediad Hanfodion Seiber ar hyn o bryd, felly nid yw'n gallu cyflwyno cais am rai grantiau ymchwil.

Canfu'r ymarfer cwmpasu y byddai'n heriol, os nad yn amhosib, ennill achrediad llawn i'r Brifysgol ar sail fersiwn ddiweddaraf y safon Hanfodion Seiber.

Cynigiodd uwch-reolwyr yn Nhîm Seiber y Gwasanaethau Systemau a Gwybodaeth a'r Gwasanaethau TG greu amgylchedd 'Ymchwil Ddibynadwy' yng nghwmwl Amazon, gan roi mynediad i nifer cyfyngedig o ddyfeisiau defnyddwyr terfynol a reolir yn ddiogel. Gyda'i gilydd, bydd yr elfennau hyn yn sylfaen ar gyfer amgylchedd ymchwil diogel cyflawn a fydd yn ein galluogi i sicrhau a chadw achrediad Hanfodion Seiber. Cytunwyd y byddai cyllideb yn cael ei llunio ar gyfer pob prosiect ymchwil sy'n gofyn am achrediad Hanfodion Seiber adeg cyflwyno'r cais am gyllid er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd ar gael i'w ddefnyddio yn syth pan fydd y cyllid ar gael. Bydd ateb o'r fath yn sicrhau bod modd cynnal prosiectau ymchwil yn hwylus, gan leihau'r gorbenion angenrheidiol i ddatblygu atebion seiberddiogelwch unigryw, yn ogystal â lleihau'r baich ar y timau Caffael a Chyfreithiol sy'n ymwneud â sicrhau atebion unigryw, pwrpasol. Caiff hyn ei gynnal ar y cwmwl a dim ond dyfeisiau defnyddwyr terfynol â nodweddion diogelwch priodol fydd yn gallu ei gyrchu.Cytunwyd mai Amgylchedd Ymchwil Ddibynadwy Amazon fyddai'r opsiwn gorau. Bydd mantais defnyddio amgylchedd ymchwil ddibynadwy ar Wasanaethau Gwe Amazon yn hwyluso'r canlynol:

- Cydymffurfiaeth â deddfwriaeth preifatrwydd, gan ddiogelu ymddiriedaeth darparwyr data.
- Diwallu'r angen i gydweithredu'n ddiogel ar setiau data sensitif a rennir.
- Rheoli a monitro costau ymchwil a'r defnydd o adnoddau TG yn ofalus
- Manteisio ar hyblygrwydd cyfrifiadura cwmwl, y gallu i'w ehangu a'i addasu.

- **Llywodraethu Ymchwil:**

Mae'r agwedd Llywodraethu Ymchwil ym Mhrifysgol Abertawe'n canolbwyntio'n bennaf ar gydymffurfiaeth y Brifysgol â Fframwaith Polisi'r DU ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2017). Mae'r tîm Llywodraethu Ymchwil yn rheoli, yn goruchwylio ac yn rheoleiddio gweithgareddau ymchwil lle mai'r Brifysgol yw noddwr yr ymchwil. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys cymeradwyo ceisiadau ymchwil i weithio gyda'r GIG, cleifion a data, llunio polisïau, prosesau a systemau clinigol, a mecanweithiau gorfodi sy'n cynnwys monitro, cydymffurfiaeth gyfreithiol a rheoleiddiol ac yswiriant.

Yn ystod 2022-23, cafodd y wefan Llywodraethu Ymchwil ei hail-lansio, gan ddarparu mwy o eglurder a mynediad at wybodaeth berthnasol, templedi dogfennau a phrosesau. Cafodd y clinigau galw heibio misol eu hailgyflwyno i staff yn y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd ac i'r staff Gwyddorau Chwaraeon yn y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg ar Gampws y Bae.

Cafodd gwaith sicrhau ansawdd a monitro prosiectau gofal iechyd y barnwyd eu bod yn 'risg uchel' ei gefnogi drwy ymweliadau cefnogi nawdd, CAPA a phresenoldeb y tîm Llywodraethu Ymchwil ar bwyllgorau llywio treialon. Cafwyd adroddiadau blynyddol ar gyfer yr holl brosiectau, a phan gawsant eu cau'n swyddogol, cafodd y prosiectau a gwblhawyd eu harchifo gan gydweithio â'r Swyddog Meinweoedd Dynol ac archifo Data. Cymerwyd camau gweithredu pan gafwyd achosion o dorri rheoliadau ac ar sail adroddiadau diogelwch yn unol ag amserlenni Awdurdod Ymchwil Iechyd a Gwasanaeth Moeseg Ymchwil y GIG.

Mae porth ar-lein ar system Infonetica Ethics Management ar gyfer 'prosiectau a noddir' wedi cael ei ddatblygu, ei brofi a'i roi ar waith i staff a myfyrwyr y Brifysgol ei ddefnyddio. Gall Pwyllgor Goruchwylio Nawdd Prifysgol Abertawe adolygu'r holl geisiadau newydd am nawdd ar y porth a byddai prosiectau'n cael eu monitro'n parhaus ar hyd eu hoes ar gyfer diwygiadau ac ar ddiwedd y prosiectau.

- **Trwydded Meinweoedd Dynol:**

Mae'r Awdurdod Meinweoedd Dynol yn rheoleiddio sefydliadau sy'n defnyddio meinweoedd dynol at ddibenion ymchwil, archwiliadau meddygol, archwiliadau ar ôl marwolaeth, addysg a hyfforddiant ac arddangos cyhoeddus. Yn yr amgylchedd ymchwil, mae'r Awdurdod yn trwyddedu mangreoedd i dynnu, casglu, storio, defnyddio a/neu waredu meinweoedd o gyrff byw a meirw at ddibenion ymchwil. Cyflwynodd Ysgol Feddygaeth Prifysgol

Abertawe gais am drwydded meinweoedd dynol a chafodd un ei rhoi yn 2016. Mae hyn wedi sicrhau bod yr holl brosiectau sy'n defnyddio meinweoedd dynol yn cael eu cynnal yn yr Ysgol Feddygaeth ac yr ymdrinnir â meinweoedd a ddefnyddiwyd yn unol â'r gyfraith. Trwydded hyb a chanolfan ategol oedd hwn gyda'r Ysgol Feddygaeth yn gweithredu fel yr hyb a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (Ysbytai Singleton a Threforys) fel canolfannau ategol. Pan ddaeth y drwydded yn weithredol, daeth hi'n amlwg bod angen trwydded ehangach ar Brifysgol Abertawe. Roedd gan Ysgolion eraill yn y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd, yn ogystal â'r Gwyddorau Chwaraeon ac Ymarfer Corff, ofynion o ran llywodraethu a rheoleiddio ymchwil sy'n cynnwys meinweoedd dynol hefyd.
Wrth werthuso opsiynau ar gyfer trwydded yr Awdurdod Meinweoedd Dynol ar gyfer y brifysgol gyfan, penderfynwyd ailstrwythuro'r drwydded, gan gael gwared ar safleoedd ategol Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a cheisio trwydded i gynnwys gweithgareddau ar y ddau gampws ac ym mhob Cyfadran. Cafodd y safleoedd ategol eu dileu ym mis Awst 2022, ac mae'r camau nesaf i sicrhau trwydded ar gyfer y brifysgol gyfan ar waith. Er mwyn hwyluso cynnydd a chymorth parhaus ar gyfer trwydded ymchwil meinweoedd dynol a fydd yn berthnasol i'r brifysgol gyfan, mae swydd newydd sef Swyddog Cydymffurfiaeth Meinweoedd Dynol wedi'i chreu. Bydd y rôl hon yn arwain yn weithredol y cais am y drwydded newydd a bydd gan y deiliad bortffolio ehangach o ddyletswyddau a fydd yn cynnwys gofalu am ddogfennaeth, cynnal archwiliadau, cynghori a chyfeirio, hyfforddiant, gwirio cymhwysedd (e.e. Cydsyniad) a chydweithio â Rheolwr Llywodraethu Ymchwil Prifysgol Abertawe. Bydd cylch gorchwyl deiliad y swydd yn cynnwys yr holl weithgarwch ymchwil sy'n defnyddio meinweoedd dynol, nid yn unig y gweithgareddau sy'n dod o dan drwydded Awdurdod Meinweoedd Dynol y Brifysgol, er mwyn sicrhau bod arfer gorau yn rhan hanfodol o weithgarwch rheoli meinweoedd at ddiben ymchwil. Mae system rheoli ansawdd sy'n darparu gweithdrefnau gweithredu diogel ar gyfer gweithgarwch ymchwil meinweoedd dynol sy'n berthnasol i'r Awdurdod Meinweoedd Dynol, ar gael ar wefan y Brifysgol (https://www.swansea.ac.uk/research/research-integrity-ethics-governance/research-governance/human-tissue-act/).

- **Ymchwil gydag Anifeiliaid:**
  Cynhaliwyd archwiliad mewnol o gydymffurfiaeth â'r Ddeddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) rhwng mis Hydref 2022 a mis Rhagfyr 2022 a chyflwynwyd yr adroddiad terfynol ar 16 Rhagfyr 2022. Nodwyd rhai gwendidau ym maes rheoli. Yn gyffredinol, fodd bynnag, roedd y rheolaethau a werthuswyd yn ddigonol, yn briodol ac yn effeithiol i roi sicrwydd rhesymol bod risgiau'n cael eu rheoli a bod amcanion strategol yn cael eu cyflawni.

- **Hyrwyddwyr Uniondeb Ymchwil:**
  Ysgwyddodd Arweinwyr Moeseg y Gyfadran rôl Hyrwyddwyr Uniondeb Ymchwil a chynnal sesiynau hyfforddiant i staff. Rhagwelir y bydd y rolau hyn yn datblygu ymhellach yn 2023-24 i ddarparu rhagor o gymorth ac arweiniad i ymchwilwyr yn y Cyfadrannau.

## ➢ Pwyllgorau a Gweithgorau sy'n Cefnogi Uniondeb Ymchwil:

- Pwyllgor Uniondeb, Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol: Parhaodd Pwyllgor Uniondeb, Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol i ddarparu cymorth, tryloywder ac atebolrwydd yn yr holl faterion sy'n ymwneud ag uniondeb a llywodraethu ymchwil ac i sicrhau bod y Brifysgol yn cydymffurfio â'i hymrwymiadau i'r *Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil.* Bu'r pwyllgor hwn, a gadeirir gan y Dirprwy Is-ganghellor (Ymchwil ac Arloesi), hefyd yn adolygu achosion moeseg a gyfeiriwyd o'r Cyfadrannau drwy ei is-grŵp. Parhaodd y pwyllgor i fonitro gweithgareddau ymchwil risg uchel ac i dderbyn adroddiadau bob chwarter gan y Cyfadrannau, yr Ysgolion a meysydd eraill megis Llywodraethu Ymchwil, Cydymffurfiaeth Meinweoedd Dynol, yr Uned Dreialon ac AWERB (y corff adolygiadau moesegol ar les anifeiliaid).

## ➢ Polisïau a Phrosesau i Gefnogi Uniondeb Ymchwil:

- **Diwygiadau i Bolisïau, Prosesau ac Arweiniad Presennol:**

Polisi ar ymdrin â honiadau o gamymddygiad mewn ymchwil: Cafodd polisi'r Brifysgol ynghylch ymdrin â honiadau o gamymddygiad mewn ymchwil ei ddiwygio i sicrhau ei fod yn gyson ag arweiniad diwygiedig UKRIO (Gweithdrefn ar gyfer Ymchwilio i Gamymddygiad mewn Ymchwil) (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023). Cafodd yr arweiniad diwygiedig ei gymeradwyo gan Bwyllgor Uniondeb, Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol.

Polisi ar asesu risg prosiectau ymchwil: Cafodd y polisi ar asesu risg prosiectau ymchwil ei ddiwygio a'i gymeradwyo gan Bwyllgor Uniondeb, Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol i sicrhau ei fod yn gyson â gofynion system cymeradwyaeth foesegol ar-lein.

Côd Ymarfer ar Awduraeth: Yn sgîl ymholiadau a godwyd mewn panel sgrinio camymddygiad mewn ymchwil, cafodd Côd Ymarfer ar Awduraeth y Brifysgol ei adolygu a'i ddiwygio i sicrhau ei fod yn gyson â rheoliadau UKRIO, COPE ac ICMJE.

- **Creu polisïau ymchwil newydd:**

Y Polisi Cyhoeddiadau Ymchwil:
Cafodd y Polisi Cyhoeddiadau Ymchwil newydd ei greu i alluogi ymchwilwyr i ailddefnyddio hawliau eu gwaith eu hunain. Mae'r polisi yn gofyn am fynediad agored llawn ar unwaith i'r holl erthyglau ymchwil a adolygir gan gymheiriaid (p'un a ydynt wedi'u hariannu ai peidio) sy'n cael eu cyhoeddi mewn cyfnodolyn, trafodion cynhadledd neu ar blatfform cyhoeddi ac mewn penodau llyfr.

Polisi Diogelu: Ym mis Gorffennaf 2023, lluniodd y Brifysgol bolisi diwygiedig ynghylch diogelu - gwarchod plant ac oedolion mewn perygl. Penododd y Brifysgol dîm Diogelu i sicrhau ei bod yn bodloni gofynion cydymffurfiaeth llywodraeth y DU am y maes. Mae'r polisïau diogelu ac atal, hyfforddiant a'r tudalennau gwe hefyd wedi cael eu diweddaru i gynnwys gwybodaeth ac arweiniad i staff a myfyrwyr (Diogelu - Prifysgol Abertawe)

Arweiniad ar adolygiadau moesegol:
I sicrhau bod adolygwyr moeseg yn deall gofynion cynnal adolygiad moeseg cadarn, lluniwyd arweiniad ar adolygiadau moesegol. Mae'r arweiniad, sy'n seiliedig ar restr wirio UKRIO ar gyfer paneli Gwasanaeth Moeseg Ymchwil, yn darparu syniadau i ymchwilwyr am sut i gynnal adolygiad moeseg cyson, cydlynol sy'n seiliedig ar wybodaeth gadarn.

Arweiniad ar gydsyniad gwybodus rhieni a ffurflenni cydsyniad porthgeidwad:
I sicrhau bod prosesau'n gyson â'r polisi diwygiedig ynghylch gweithio gyda phlant a phobl ifanc, cafodd arweiniad newydd ar gydsyniad gwybodus rhieni a ffurflen cydsyniad porthgeidwad eu llunio a'u cymeradwyo gan Bwyllgor Uniondeb, Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol. Cafodd y ffurflenni a'r polisïau eu cysylltu â'r system ar-lein newydd ar gyfer cymeradwyaeth foesegol.

Arweiniad ar Reoli Allforion: I helpu ymchwilwyr i fanteisio i'r eithaf ar eu cydweithrediadau gwyddonol rhyngwladol, gan gydymffurfio â gofynion y Ddeddf Diogelwch Gwladol, a diogelu eiddo deallusol eu hymchwil a'u gwybodaeth bersonol, mae'r Brifysgol wedi llunio a chyhoeddi ar y tudalennau gwe Uniondeb Ymchwil arweiniad ar Ymchwil Ddibynadwy a'r gofynion o ran Rheoli Allforion.

➢ **Systemau i Gefnogi Uniondeb Ymchwil:**

- **System Adolygiad Moesegol Ar-lein:** Yn 2022-23, llwyddodd y Brifysgol i gaffael system ar-lein ar gyfer adolygiad moesegol ceisiadau ymchwil gan Infonetica Ethics Research Management a'i rhoi ar waith yn ei holl Gyfadrannau ac Ysgolion. Cyfarfu'r Bwrdd Prosiect a oedd yn gyfrifol am gaffael y system a'i rhoi ar waith yn rheolaidd i adolygu gofynion y system.  Cwblhawyd y prosiect yn llwyddiannus ar amser ac yn unol â'r gyllideb a ddyrannwyd iddo.

- **Tudalennau we Uniondeb Ymchwil**: Cafodd tudalennau gwe Uniondeb Ymchwil y Brifysgol eu diweddaru gan ychwanegu gwybodaeth berthnasol am bolisïau, prosesau, cysylltiadau a systemau newydd a diwygiedig. Gwnaed mynediad at y polisïau ymchwil yn haws drwy dudalennau'r staff drwy eu rhestru'n unigol. Mae'r datganiadau blynyddol am uniondeb ymchwil yn parhau i gael eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg ar y tudalennau gwe Uniondeb Ymchwil.

## 2. Cefnogi datblygiad ymchwilwyr

➢ **Hyfforddiant/Ymwybyddiaeth a Datblygiad:**

- Hyfforddiant Uniondeb Ymchwil ar-lein i staff: Parhaodd y Brifysgol i danysgrifio i'r hyfforddiant Uniondeb Ymchwil ar-lein gan Epigeum (SAGE Publishing). Pan ddaeth y tanysgrifiad i ben estynnwyd y drwydded bresennol ar gyfer yr hyfforddiant am gyfnod ychwanegol o flwyddyn. Bu aelodau'r Pwyllgor Uniondeb, Moeseg a Llywodraeth Ymchwil yn adolygu pecyn hyfforddiant arall ar gyfer 'ymchwilwyr profiadol' gan Epigeum. Mae'r hyfforddiant hwn, sy'n cynnwys modiwlau mwy perthnasol i uwch-ymchwilwyr, yn opsiwn i'w ystyried yn 2023/24. Mae Uwch-dîm Arweinyddiaeth y Brifysgol wedi cymeradwyo'r hyfforddiant uniondeb ymchwil fel hyfforddiant gorfodol ar gyfer yr holl staff sy'n weithredol ym maes ymchwil. Byddai'r hyfforddiant 'gorfodol' hwn yn cael ei fonitro yn 2023-24 drwy'r broses Adolygiad Datblygiad Proffesiynol flynyddol.

  Hyfforddiant Sgiliau Ymchwilydd Ar-lein ar gyfer Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig: Yn ystod 2022/23, prynwyd hyfforddiant ar-lein (Pecyn Cymorth Sgiliau Ymchwil) gan Epigeum i hyfforddi myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig.

- Diogelu ac Atal: Hysbyswyd ymchwilwyr y byddai'n rhaid iddynt gwblhau'r hyfforddiant Diogelu ar-lein cyn y gellid cymeradwyo cais am brosiect a fyddai'n golygu gweithio gyda phlant ac oedolion agored i niwed. Byddai'r tîm llywodraethu ymchwil yn monitro cofnodion hyfforddiant. Adolygodd y Brifysgol ei hyfforddiant 'Atal' hefyd gan ddarparu ar gyfer hyfforddiant ar-lein newydd yn y maes.

- Sesiynau Hyfforddiant am Ymchwil Ddibynadwy a Rheoli Allforion: I gynyddu ymwybyddiaeth o'r risgiau o ymgymryd ag ymchwil ac arloesi rhyngwladol ac Ymchwil Ddibynadwy, cynhaliodd hyfforddwyr allanol (Settica Ltd) a staff o Dîm Cyngor ar Gydweithrediadau Ymchwil Llywodraeth y DU (RCAT) sesiynau am Ymchwil Ddibynadwy (*sut i adnabod ymyrraeth dramor) a Rheoli Allforion. Er mwyn gwella eu gwybodaeth am ofynion diweddaraf Llywodraeth y DU ar gyfer rheoli allforion, cymerodd staff gwasanaethau proffesiynol o'r tîm Uniondeb Ymchwil a Chyfreithiol ran mewn gweminarau a phrosiectau peilot ar-lein o'r hyfforddiant rheoli allforion a ddarparwyd gan HEFCA (y Gymdeithas Rheoli Allforion Addysg Uwch.

- Cyfres Gweminarau UKRIO: Parhaodd aelodau i dderbyn gwybodaeth am gyfres fisol Swyddfa Uniondeb Ymchwil y DU (UKRIO) o weminarau am ymddygiad da mewn ymchwil ac roedd y sesiynau'n addysgol ac yn defnyddiol iawn.

## 3. Ymdrin â honiadau o gamymddygiad mewn ymchwil yn dryloyw, yn deg ac yn gadarn

➢ **Camymddygiad mewn Ymchwil:**

Gellir gweld y polisi am dderbyn honiad o gamymddygiad mewn ymchwil a manylion am sut i fynegi pryder ar dudalennau gwe'r Brifysgol a gall unigolyn sy'n dymuno mynegi pryder eu cyrchu yn: Camymddygiad mewn Ymchwil - Prifysgol Abertawe. Mae gwasanaeth e-bost cyfrinachol (researchmisconduct@abertawe.ac.uk) ar gael i'r rhai sy'n dymuno mynegi pryder yn ysgrifenedig. Y Dirprwy Is-ganghellor (Ymchwil ac Arloesi) yw'r 'cyswllt a enwir' ar gyfer y Brifysgol. Y Rheolwr Uniondeb Ymchwil yw'r trydydd parti a ddynodwyd i gydlynu'r broses gyfrinachol hon. Cynhelir pob proses sgrinio ac ymchwiliad i gamymddygiad mewn ymchwil yn unol â pholisi'r Brifysgol ac mae'r paneli ymchwilio bob amser yn cynnwys aelod allanol o sefydliad addysg uwch arall yn y DU.

Yn 2022/23, derbyniodd a phrosesodd y Brifysgol yr honiadau canlynol yn unol â'i pholisi:

| Mis/Blwyddyn | Honiad | Natur y camymddygiad honedig | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| Chwefror 2023 | Dyfeisio a Ffugio | Trin delweddau | Camgymeriad gonest.<br>Cafodd y papur ei gywiro a'i ailgyflwyno. |
| Mehefin 2023 | Ffugio | Trin delweddau. | Ni chanfu'r broses sgrinio unrhyw dystiolaeth o gamymddygiad mewn ymchwil. |

## 4. Adolygu prosesau'n rheolaidd ac yn agored - gwersi a ddysgwyd

Nid yw'r Brifysgol wedi cynnal unrhyw ymchwiliadau ffurfiol yn 2022-2023 fel y'u disgrifir yng nghanllawiau UKRI. Yn sgîl y cwynion a dderbyniwyd, mae'r Brifysgol yn adolygu'r gofynion a'r posibilrwydd o gaffael meddalwedd sefydliadol i groeswirio am drin data. Mae'r Brifysgol yn bwriadu cynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth o gamymddygiad mewn ymchwil gan ddefnyddio astudiaethau achos ac enghreifftiau go iawn.

## 5. Heriau ar gyfer 2023/24:

- Gwreiddio diwylliant ymchwil lle caiff ymchwil ei chynnal yn unol â gofynion moesegol a rheoleiddiol a lle bydd gan staff yr hyder i roi gwybod am arferion ymchwil gwael heb ofni dial.
- Sicrhau bod gan y Brifysgol bolisïau, systemau a phrosesau ar waith i fodloni gofynion llywodraeth y DU o ran Ymchwil Ddibynadwy a dilysrwydd dyladwy mewn ymchwil.
- Sicrhau bod polisi a chanllawiau ar ddeallusrwydd artiffisial mewn ymchwil yn cael eu datblygu i'r Brifysgol a bod ymchwilwyr yn ymwybodol o'r gofynion.

***__Gwybodaeth bellach:__*** *Lluniwyd y datganiad hwn gan y Rheolwr Uniondeb Ymchwil ar y cyd â chydweithwyr yn y tîm diwylliant ymchwil, llywodraethu ymchwil ac AWERB. Cymeradwyir yr adroddiad gan gorff llywodraethu'r Brifysgol, y Cyngor, a chan bwyllgorau llywodraethu eraill megis yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth, Pwyllgor Uniondeb, Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol, Pwyllgor Effaith Ymchwil ac Arloesi'r Brifysgol, a'r Senedd. Cyflwynir copi o'r adroddiad i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a chaiff ei gyhoeddi ar dudalennau Ymchwil y Brifysgol yn unol â gofynion Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI) a'r Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil.*

*Os oes gennych ymholiadau ynghylch yr adroddiad neu os hoffech wybodaeth am faterion uniondeb ymchwil, e-bostiwch: researchintegrity@abertawe.ac.uk*